

CYFLOGI GWEITHWYR PROFFESIYNOL AR GYFER PROSIECTAU EGLWYSIG

NODYN CYFARWYDDYD I BLWYFI

Cyflwyniad

Mae'r dulliau adeiladu a'r deunyddiau adeiladu a ddefnyddir mewn adeiladau hanesyddol yn wahanol iawn yn aml i'r rhai a ddefnyddir mewn adeiladau modern. Mae'n bwysig felly sicrhau bod unrhyw waith iddynt yn cael ei gyflawni mewn modd ystyriol sy'n parchu eu hoedran. Mae dewis y gweithiwr proffesiynol cywir ar gyfer y swydd gywir yn rhan o'r broses hon.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn wedi'i rannu yn sawl adran. Mae Adran 1 yn edrych ar y mathau o weithwyr adeiladu proffesiynol y gallech fod eu hangen ar gyfer prosiect adeilad eglwys ac yn rhoi trosolwg byr o'u gwaith, y corff proffesiynol neu fasnach y maent yn perthyn iddo ac a oes ganddo gynllun achredu cadwraeth ar wahân. Nid oes angen i bob gweithiwr proffesiynol gael achrediad cadwraeth i weithio ar brosiect eglwysig, mae'n dibynnu beth yw ei swydd yn y cynllun gwaith cyffredinol. Er enghraifft, efallai y bydd angen archeolegydd arnoch i gyflawni briff gwyllo os oes angen gwneud gwaith cloddio yn y fynwent. Ni fyddai angen achrediad cadwraeth arnynt i wneud hyn. Mae Adran 2 yn trafod manteision defnyddio gweithwyr proffesiynol ac Adran 3 yn edrych ar benodi prif weithiwr proffesiynol ar gyfer prosiect. Mae Adran 4 yn rhestru rhai ystyriaethau cyffredinol i feddwl amdanynt. Mae yna wybodaeth am y mathau cyffredin o gontract y gallwch ddod ar eu traws hefyd a chanllawiau ar gyfer cael dyfynbrisiau a thendrau yn yr atodiadau.

I. Pa weithwyr proffesiynol sydd ar gael a beth yw eu gwaith? ¹

Mae llawer o weithwyr proffesiynol wedi cael eu hyfforddi mewn dulliau adeiladu modern yn unig a dyna'u profiad, ac felly maen nhw'n llai cymwys i nodi achosion problemau neu i nodi gwaith trwsio priodol a chost-effeithiol i adeiladau hanesyddol. Mae'n bwysig felly dewis rhywun sydd â'r wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i weithio ar adeiladau hanesyddol oherwydd byddant yn ymwybodol o'r problemau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwaith o'r fath.

Un ffordd o sicrhau bod gan weithwyr adeiladu proffesiynol y set gywir o'r sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen i weithio ar adeiladau hyn a hanesyddol, yw sicrhau bod ganddynt achrediad cadwraeth i brofi eu cymhwysedd. Mae hefyd yn dangos i gyrff sy'n dyfarnu

¹ Mae'r cyngor yn yr adran hon wedi'i gymryd o wefan Historic England ynghylch achrediad cadwraeth:
www.historicengland.org.uk.

grantiau, cleientiaid a chyflogwyr eu bod wedi'u hasesu'n annibynnol ac yn cael eu hystyried i fod â lefel uchel o sgîl a phrofiad ym maes cadwraeth adeiladau, o fewn eu maes proffesiynol.

Yn eu tro, mae'r cynlluniau hyn a'u cofrestru o unigolion ag achrediad cadwraeth yn galluogi'r rhai sydd am gomisiynu gwaith ar adeiladau hanesyddol i ddod o hyd i weithwyr proffesiynol sy'n meddu ar y sgiliau penodol a'r profiad gofynnol, sy'n cwmpasu pob agwedd ar gadwraeth adeiladau hanesyddol, gwaith trwsio a chynnal a chadw.

Mae'r cynlluniau achredu wedi'u datblygu a'u gweithredu gan gyrff proffesiynol a sefydliadau annibynnol. Mae gan bob cynllun ei broses ymgeisio ac asesu ei hun. I gael achrediad, mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth o brofiad a chymhwysedd, sy'n cael eu hasesu gan aseswyr diduedd, profiadol addas.

Yn dibynnu ar faint, cymhlethdod a natur eich prosiect adeilad penodol chi, gallech ystyried defnyddio unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol a restrir yn yr adrannau canlynol. Mae Rhan (a) yn rhestru'r rhai y mae gan eu corff proffesiynol gynllun achredu cadwraeth a Rhan (b) yn rhestru'r rhai y bydd eu hangen arnoch ar gyfer prosiect adeiladu o bosibl, ond na fyddant ag achrediad cadwraeth nac yn perthyn i gorff proffesiynol o reidrwydd.

(a) Gweithwyr proffesiynol â chynlluniau achredu cadwraeth ²

Penseiri

Mae pob pensaer cymwys wedi'i gofrestru gyda *Bwrdd Cofrestru'r Penseiri*³ (ARB), waeth a ydynt yn perthyn i *Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain*⁴ (RIBA), sef y corff proffesiynol sy'n cynrychioli llawer ohonynt. Mae'r term 'pensaer' yn deitl gwarchoddedig yn y DU, felly dim ond y rhai sydd wedi cofrestru gyda'r ARB all alw eu hunain yn 'bensaer'. Nid oes gan weithwyr proffesiynol sy'n mabwysiadu teitlau tebyg fel *Dylunydd Pensaernïol* yr un cymwysterau proffesiynol sydd eu hangen i fod yn bensaer.

Mae penseiri wedi'u hyfforddi ym maes dylunio, a gall y rhai sy'n arbenigo mewn hen adeiladau ddod â'u harbenigedd i ddylunio prosiectau adnewyddu, addasiadau ac estyniadau, yn ogystal â dylunio adeiladau newydd mewn ardaloedd hanesyddol.

Mae dros 30,000 o benseiri wedi cofrestru yn y DU ond dim ond cyfran fechan sydd wedi arbenigo ym meysydd cadwraeth a thrwsio hen adeiladau. Gellir dod o hyd i benseiri ag achrediad cadwraeth cydnabyddedig yn y *Gofrestr o Benseiri wedi'u Hachredu ym maes Cadwraeth Adeiladau*⁵ (AABC) neu yng *Nghofrestr Penseiri Cadwraeth RIBA*⁶.

Syrfewyr Adeiladau

² Mae'r cyngor yn yr adran hon wedi'i gymryd o wefan Historic England ar ddod o hyd i gymorth proffesiynol:

www.historicengland.org.uk.

³ www.architects-register.org.uk.

⁴ www.architecture.com.

⁵ www.aabc-register.co.uk.

⁶ www.architecture.com.

Mae gan syrfewyr adeiladau rôl debyg i bensaer mewn perthynas â thrwsio a chynnal a chadw adeiladau cyfredol, ond nid ydynt wedi'u hyfforddi fel dylunwyr ar y cyfan.

Y prif gorff proffesiynol ar gyfer syrfewyr adeiladau yw *Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig*⁷ (RICS). Fel penseiri, dim ond cyfran fechan o syrfewyr adeiladau sy'n arbenigo ym maes cadwraeth a thrwsio hen adeiladau. Mae'r rhain i'w gweld ar *Gofrestr Achrediad Cadwraeth Adeiladau RICS*⁸.

Gweithwyr Cadwraeth Proffesiynol

Mae gweithwyr cadwraeth proffesiynol yn arbenigwyr ar faterion treftadaeth sy'n gallu eich helpu i reoli eich adeilad hanesyddol, gofalu amdano a'i warchod. Eu prif gonsŷrn yw sicrhau bod unrhyw waith yn parchu gwerthoedd treftadaeth, nodweddion hanesyddol a thechnegau adeiladu arbenigol. Byddant yn gallu rhoi cyngor technegol i chi am ddeunyddiau adeiladu a gwaith trwsio a phroblemau fel estyniadau ac addasiadau i adeiladau hanesyddol.

Gall gweithwyr cadwraeth proffesiynol ddod o amrywiaeth eang o feysydd, ond dylent feddu ar achrediad llawn gan y *Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol*⁹ (IHBC), a bod â'r llythrennau IHBC ar ôl eu henw. Mae'r rhan fwyaf o Swyddogion Cadwraeth awdurdodau lleol yn aelodau o'r IHBC, yn ogystal â gweithwyr cadwraeth proffesiynol eraill fel penseiri, syrfewyr adeiladau ac archeolegwyr. Mae'r IHBC yn darparu rhestr chwiliadwy o fusnesau sy'n gweithio i safonau cadwraeth a gwasanaeth a bennwyd gan yr IHBC ar ei wefan *Historic Environment Service Providers Recognition (HESPR)*¹⁰. Gall ei swyddfa genedlaethol eich cyfeirio at yr aelodau achrededig perthnasol.

Technolegwyr Pensaernïol

Mae Technolegwyr Pensaernïol yn ymwneud yn bennaf â pherfformiad technegol gadarn adeiladau. Maent yn arbenigwyr ym maes dylunio ac adeiladu adeiladau ac yn gallu cychwyn a chwblhau prosiect adeilad o'r syniad gwreiddiol hyd at yr ardystiad terfynol. Fel penseiri a syrfewyr adeiladau, mae ganddynt eu corff proffesiynol eu hunain, *Sefydliad Siartredig y Technolegwyr Pensaernïol*¹¹ (CIAT). Dim ond cyfran fechan o dechnolegwyr pensaernïol sy'n arbenigo mewn cadwraeth a thrwsio hen adeiladau ac maen nhw i'w gweld ar *Gofrestr Cadwraethwyr Achrededig CIAT*¹².

Peirianwyr Strwythurol

Peiriannydd strwythurol yw'r unigolyn gorau i asesu problemau strwythurol. Eu prif swyddogaeth yw archwilio cyflwr a diffygion strwythur cyfredol, er eu bod yn cael ceisiadau i roi cyngor ar uniondeb strwythurol gwaith arfaethedig fel estyniadau a datblygiadau newydd

⁷ www.rics.org.

⁸ www.rics.org.

⁹ www.ihbc.org.uk.

¹⁰ www.ihbc.org.uk.

¹¹ www.ciat.org.uk.

¹² www.ciat.org.uk.

hefyd. Eto, mae'n well dod o hyd i beiriannydd sydd â phrofiad o adeiladau hanesyddol. Mae gan y *Sefydliad Peirianwyr Strwythurol (IStrucE)* a'r *Sefydliad Peirianwyr Sifil (ICE)*¹³ beirianwyr sydd wedi'u hachredu mewn cadwraeth adeiladau, ac mae'r rhain wedi'u rhestru ar y *Gofrestr Achrediad Cadwraeth i Beirianwyr (CARE)*, sy'n cael ei gweinyddu gan ICE¹⁴.

Cadwraethwyr

Arbenigwyr mewn cadwraeth, trwsio a gwarchod deunyddiau a gwrthrychau, fel murluniau, cerfluniau a gwydr lliw yw cadwraethwyr. Gallant hefyd gynnal arolygon o ddeunyddiau a gwrthrychau hanesyddol, a gwneud argymhellion ar gyfer eu trwsio. Mae gan y *Sefydliad Cadwraeth*¹⁵ (ICON) *Gofrestr Cadwraeth* benodol ar gyfer eiddo hanesyddol a manau addoli sy'n rhestru cadwraethwyr â sgiliau penodol.

(b) Gweithwyr proffesiynol heb gynlluniau achredu cadwraeth

Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladau

Defnyddir peirianwyr gwasanaethau adeiladau i osod a chynnal amrywiaeth o systemau gweithredol gwahanol a ddefnyddir mewn adeiladau modern a hanesyddol. Gall y rhain fod yn bethau fel systemau gwres, golau, plymwaith, trydan, awyru, aerdymheru ac atal tân. Mae *Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladau*¹⁶ (CIBSE) yn cynnal *Cyfeiriadur o Bractisau a Chwmnïau* sef cronfa ddata chwiliadwy o'u haelodau.

Rheolwyr Prosiect

Caiff rheolwyr prosiect eu penodi'n aml i gydgyssylltu tîm o weithwyr proffesiynol neu i weithredu fel prif ymgynghorydd ar brosiect mawr. Gallant ddod o amrywiaeth o gefndiroedd yn cynnwys penseiri, syrfewyr adeiladau a pheirianwyr. Bydd pwy rydych chi'n ei gyflogi fel rheolwr prosiect yn dibynnu llawer ar y math o brosiect rydych yn ei gyflawni. Mae yna *Gymdeithas ar gyfer Rheoli Prosiect*¹⁷, er nad oes rhaid i unrhyw un sy'n rhedeg prosiect fod yn aelod ohoni.

Efallai y bydd rhai o'r cynlluniau grant mwy, fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri, yn cynnwys amodau penodol sy'n berthnasol wrth gyflogi rheolwr prosiect e.e. bod rhaid iddo fod yn bensaer ag achrediad cadwraeth. Dylech wirio hyn gyda'r cynllun grant rydych yn gwneud cais iddo cyn cychwyn penodi unrhyw weithwyr proffesiynol ar gyfer eich prosiect.

Archaeolegwyr

Mae archaeolegwyr yn astudio'r gorffennol drwy ei weddillion ffisegol, sydd yn eu tro'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol. Efallai y bydd angen gwasanaethau

¹³ www.ice.org.uk.

¹⁴ www.ice.org.uk.

¹⁵ www.icon.org.uk.

¹⁶ www.cibse.org.

¹⁷ www.apm.org.uk.

archeolegydd arnoch wrth gynnal gwaith tanddaearol mewn mynwent i sicrhau nad oes difrod yn cael ei wneud i weddillion cudd (fel adeiladau neu gladdiadau) neu i gofnodi eu presenoldeb. Gelwir hyn yn friff gwyllo ac efallai y bydd yn ofynnol fel rhan o ganiatâd cynllunio neu'n amod dyfarnu grant. Mewn achosion prin efallai y bydd angen archeolegydd arnoch i lunio adroddiad lliniaru os oes rhaid symud unrhyw weddillion neu i gynnal arolwg o adeilad sy'n sefyll os oes angen ei ddymchwel. Mae'r rhan fwyaf o archaeolegwyr proffesiynol yn aelodau o *Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr*¹⁸ (ClfA), sy'n sicrhau bod gan eu haelodau achrediad proffesiynol a sgiliau ym maes astudio a gofalu am yr amgylchedd hanesyddol. Mae ganddynt gyfeiriadur chwiliadwy o sefydliadau sy'n aelodau.

Ecolegwyr

Mae ecolegwyr yn cynnal arolygon i nodi, cofnodi a monitro rhywogaethau a'u cynefinoedd. Efallai y bydd angen eu gwasanaethau ar brosiect adeiladu i sicrhau nad yw gwaith yn amharu ar y bywyd gwyllt (planhigion ac anifeiliaid), neu i gynnal arolwg ac adroddiad yn dogfennu'r rhywogaethau pwysig (e.e. ystlumod, madfallod dŵr, blodau, ffwng, cennau ac ati) mewn eglwys neu fynwent. Mewn achosion prin efallai y bydd angen ecolegydd arnoch i lunio adroddiad lliniaru os oes angen symud unrhyw blanhigion neu anifeiliaid i ardaloedd newydd neu fel amod o ganiatâd cynllunio neu ddyfarniad grant. Mae'r rhan fwyaf o ecolegwyr proffesiynol yn aelodau o *Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol*¹⁹ (CIEEM) sy'n sicrhau bod eu haelodau wedi cymhwyso'n addas ac yn meddu ar yr hyfforddiant a'r trwyddedau priodol i weithio gydag amrywiaeth o blanhigion o anifeiliaid. Mae ganddo gyfeiriadur chwiliadwy lle gallwch ddod o hyd i aelodau sy'n arbenigo mewn gwahanol rywogaethau a chynefinoedd, a/neu sy'n meddu ar drwyddedau penodol.

Adeiladwyr/Contractwyr

Mae'n werth treulio'r un faint o amser yn dewis adeiladwr ag y gwnewch chi'n dewis cynghorydd proffesiynol. Os ydych wedi penodi pensaer neu syrfëwr, dylent allu dod o hyd i adeiladwr addas i chi. Fodd bynnag, os nad ydych yn cyflogi cynghorydd proffesiynol ar gyfer y gwaith, mae'n bwysig dod o hyd i adeiladwr sydd â phrofiad a gwybodaeth am waith i adeiladau hanesyddol. Holwch o gwmpas, gwiriwch eiridon, ewch i edrych ar waith arall y mae'r adeiladwr wedi'i gwblhau.

Os ydych yn gofyn am gyngor adeiladwr ar ba waith sydd angen ei wneud, byddwch yn ymwybodol y bydd ganddo fuddiant breintiedig yn y gwaith sydd angen i'w wneud. Os ydych chi'n credu bod adeiladwr yn cynnig gwaith diangen, dylech ofyn am gyngor proffesiynol annibynnol.

Mae llawer o elfennau adeiladau hanesyddol yn reit fregus ac mae angen arbenigedd arbenigol wrth ystyried eu trwsio yn hytrach na sgiliau adeiladwr cyffredinol. Gall gwaith o'r fath gynnwys glanhau ac ail-bwyntio gwaith carreg, trwsio ffenestri gwydr lliw neu osod gwasanaethau arbennig.

¹⁸ www.archaeologists.net.

¹⁹ www.cieem.net.

Gall rhai adeiladwyr fod yn aelodau o gymdeithas fasnach fel *Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr*²⁰ neu *Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr*²¹. Yn ogystal, mae cynllun *TrustMark*²² yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth, grwpiau defnyddwyr a'r diwydiant adeiladu i helpu pobl i ddod o hyd i gwmnïau dibynadwy i gynnal gwaith trwsio, cynnal a chadw a gwella. Fel rheol, mae gofyn i aelodau'r cynlluniau hyn fodloni rhai meini prawf derbyn a/neu gydymffurfio â chod ymarfer. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu fetio'n drylwyr fel y cyrff proffesiynol y soniwyd amdanynt yn gynharach. Nid oes ganddynt gynlluniau achrediad cadwraeth ychwaith.

2. Manteision defnyddio gweithwyr proffesiynol

Dylai gweithiwr proffesiynol eich arwain oddi wrth gynnal gwaith diangen neu amhriodol i adeilad hanesyddol. Dylai gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad o eiddo hŷn allu awgrymu atebion cost-effeithiol wedi'u cynllunio'n dda i unrhyw broblemau y byddwch chi'n eu hwynebu.

Mae nifer o dasgau sy'n werth eu gadael i weithwyr proffesiynol fel penseiri neu syrfewyr.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ysgrifennu manylebau sy'n rhoi manylion am y gwaith i'w wneud, pa ddeunyddiau i'w defnyddio a pha safonau y dylid eu defnyddio wrth adeiladu
- Cael cydsyniadau fel cydsyniad adeilad rhestredig, caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth rheoliadau adeiladu
- Dod o hyd i adeiladwyr/contractwyr addas
- Tendro gwaith a phenderfynu ar gontract
- Archwilio'r gwaith adeiladu a gweinyddu'r contract

Os ydych chi'n penderfynu peidio â chyflogi gweithiwr proffesiynol i baratoi manyleb, tendr am y gwaith neu ddod o hyd i adeiladwr, mae yna rai materion pwysig y dylech eu hystyried.

Pan fyddwch yn cael gwaith adeiladu wedi'i wneud mae'n werth cael contract. Un o'r rhai symlaf sy'n cael ei ddefnyddio amlaf ar gyfer prosiectau eglwysi yw "Llythyr Penodi" a ddylai gynnwys y wybodaeth hon o leiaf: dyddiadau cychwyn a gorffen, y pris penodedig y cytunwyd arno ar gyfer y gwaith, a beth yn union mae'r pris yn ei gynnwys ac nad yw'n ei gynnwys (yn hytrach nag amcangyfrif). Dylai'r contract gwmpasu materion yswiriant hefyd. Mae mathau eraill o gontract safonol ar gael ac yn cynnwys y rhai a roddir gan RIBA, RICS neu JCT. Gweler *Atodiad A* am ragor o wybodaeth.

Yn aml, gall gwaith i adeiladau hanesyddol gynnwys eitemau nas rhagwelwyd ar yr adeg y cytunwyd ar bris, ond a ddaw'n amlwg wrth i waith fynd rhagddo ac wrth i'r adeilad gael ei

²⁰ www.fmb.org.uk.

²¹ www.builders.org.uk.

²² www.trustmark.org.uk.

'agor i fyny'. Cyn dechrau prosiect dylech gytuno â'r adeiladwr sut y bydd gwaith ychwanegol yn cael ei gostio ac ystyried swm wrth gefn i dalu am broblemau nas rhagwelwyd.

Cyn i waith ddechrau, dylech holi sut y bydd yn cael ei gynnal ac ym mha drefn. Hefyd, holwch sut y bydd y safle'n cael ei redeg - mae angen i hynny gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015, sy'n llywodraethu iechyd a diogelwch ar safleoedd adeiladu (waeth pa mor fach ydynt). Am ragor o wybodaeth gweler nodyn cyfarwyddyd ar wahân yr Eglwys yng Nghymru, *Prosiectau a Diogelwch Adeiladau'r Eglwys*, y gellir cael copi ohono drwy gysylltu â'r Adran Eiddo ar 02920 348200 neu property@churchinwales.org.uk. Cadwch gofnodion o bob gohebiaeth gyda'ch adeiladwr/contractwr rhag ofn y bydd problemau'n codi'n ddiweddarach. Efallai ei bod hi'n werth cadw cofnod ffotograffig o'r adeilad cyn i'r gwaith ddechrau a gydol y broses drwsio.

3. Penodi prif weithwyr proffesiynol

Mae'n bwysig defnyddio prif weithiwr proffesiynol sydd â phrofiad o weithio ar adeiladau hanesyddol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau mawr neu gymhleth sy'n cynnwys gwaith i eglwys restredig Gradd I neu Radd II*. Dylent feddu ar achrediad cadwraeth hefyd. Fodd bynnag, mewn achosion arbennig, bydd achrediad cadwraeth yn ofyniad ac *nid* dim ond yn argymhelliad.

Mae meini prawf Cronfa Dreftadaeth y Loteri sy'n mynnu bod gan y prif weithwyr proffesiynol achrediad cadwraeth yn newid, felly dylech holi cyn gwneud cais oherwydd fe allant effeithio ar bwy y gallwch ei benodi i'ch prosiect.

Mae Cadw yn parhau i ofyn i brif weithwyr feddu ar achrediad cadwraeth ar gyfer grantiau mwy na £10,000. Mae'r meini prawf fel a ganlyn:

- Penseiri sydd wedi'u rhestru fel rhai categori 'A' ar *Gofrestr AABC* neu fel Pensaer Cadwraeth Arbenigol ar *Gofrestr Cadwraeth RIBA* neu fel Pensaer Achrededig neu Uwch ar *Gorfforaeth Frenhinol Penseiri'r Alban*²³ (RIAS)
- Syrfewyr adeiladu siartredig sydd wedi'u rhestru ar *Gofrestr Achrediad Cadwraeth Adeiladau RICS*
- Technolegwyr pensaernïol siartredig sydd wedi'u rhestru ar lefel Achrededig yng *Nghyfeiriadur Cadwraethwyr Achrededig CIAT*

4. Ystyriaethau cyffredinol

Wrth gyflogi gweithwyr proffesiynol neu gontractwyr adeiladu cofiwch wneud eich gwaith cartref yn gyntaf. Lluniwch restr wirio o'r mathau o bobl (proffesiynol a masnach) y byddwch eu hangen ar gyfer eich prosiect yn eich barn chi. Edrychwch ar Adran I - *Pa weithwyr proffesiynol sydd ar gael a beth yw eu gwaith?* i roi rhywfaint o syniad i chi o bwy sydd ei angen arnoch.

²³ www.rias.org.uk

Mae gan y rhan fwyaf o gyrff proffesiynol a chymdeithasau masnach restr o aelodau ar eu gwefannau i'w gwneud hi'n haws i chi ddod o hyd i weithiwr proffesiynol cymwys yn eich ardal. Eto, mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u nodi yn Adran I gyda dolenni i'r gwefannau priodol.

Pan fyddwch chi wedi penderfynu pa weithwyr proffesiynol fyddai'n fwyaf addas i'ch prosiect chi, gwiriwch pa brofiad sydd ganddynt o weithio gydag adeiladau hanesyddol. Gofynnwch iddynt roi enghreifftiau o brosiectau blaenorol ac ewch i weld eu gwaith. Lle bo'n bosibl, siaradwch â phobl sydd wedi cael y gwaith wedi'i wneud i sicrhau eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant.

Os bydd angen prif weithiwr proffesiynol ag achrediad cadwraeth arnoch, gwnewch yn siŵr bod ei achrediad yn gyfredol ac ar y lefel gywir ar gyfer eich prosiect.

A chofiwch, mae argymhellion personol gan Gyngorau Plwyf Eglwysig (PCCs)²⁴ eraill yn werth y byd!

²⁴ Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" o fewn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys, y neuadd a'r fynwent. Gellir adnabod y cyrff hyn hefyd fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisiau'r esgobaeth.

ATODIAD A – CONTRACTAU ADEILADU

Cytundeb ynghylch amodau a thelerau'r gwasanaethau a ddarperir yw contract ac mae ar y ffurf ganlynol fel arfer:

- Llythyr Penodi
- Contract safonol fel y rhai a roddir gan RIBA, RICS neu JCT.

Mae Llythyr Penodi fel arfer yn ddigon ar gyfer y rhan fwyaf o waith adeiladu sylfaenoll. Dyma'r "contract" rhyngoch chi a'ch cyngorydd proffesiynol neu gontractwr adeiladu. Y math hwn o gontract yw'r un mwyaf priodol ar gyfer prosiectau cost isel neu'r rhai sy'n defnyddio un contractwr adeiladu. Gall enghreifftiau gynnwys: gosod system wresogi neu oleuo newydd, ailweirio eglwys yn rhannol neu'n llawn, gosod draeniau newydd neu hyd yn oed brosiect cost uchel sy'n defnyddio un contractwr adeiladu fel aildoi eglwys.

Dylai'r Llythyr Penodi roi manylion cyfanswm cost y prosiect, rhestr o'r gwaith a'r amserlen. Os yw'n brosiect cost uchel efallai y byddwch am ystyried cynnwys darpariaeth ar gyfer taliadau fesul cam fel na fydd eich contractwr adeiladu'n derbyn cyfandaliad ymlaen llaw am y gwaith – drwy wneud hyn bydd gennych chi rywffaint o ddylanwad os aiff pethau o chwith. Cofiwch gadw cofnodion o unrhyw ohebiaeth rhyngoch chi a'ch contractwr adeiladu neu gyngorydd proffesiynol **bob amser, yn enwedig** os ydych chi'n gofyn am waith ychwanegol nad oedd yn y llythyr gwreiddiol. Mae'n rhaid cytuno ar waith ychwanegol yn ysgrifenedig *cyn* ei gwblhau.

Bydd contractau safonol fel y rhai a roddir gan RIBA, RICS a JCT fel arfer ond yn cael eu defnyddio ar gyfer prosiectau cost uchel eang lle mae nifer o wahanol grefftwyr neu gontractwyr adeiladu'n cyflawni'r gwaith. Enghraifft o'r math hwn o brosiect fyddai troi rhan o eglwys yn ofod aml-swyddogaeth a fyddai'n gofyn am waith adeiladu newydd, ailweirio, gosod cegin ac ystafelloedd cyfarfod. Byddech angen gwasanaethau cyngorydd proffesiynol neu reolwr prosiect i redeg y prosiect hefyd.

Ar gyfer y math hwn o brosiect, byddai'r contractau fel arfer yn cael eu llunio rhwng (a) y Cyngor Plwyf Eglwysig a'r pensaer a (b) y Cyngor Plwyf Eglwysig a'r prif gontractwr adeiladu (a allai is-gontractio rhywfaint o'r gwaith i grefftwyr unigol wedyn). Dylai'ch cyngorydd proffesiynol neu reolwr prosiect allu rhoi cyngor ar ba fath o gontract fyddai'n fwyaf priodol i'ch prosiect chi. Dylech ofyn am gyngor gan Adran Gyfreithiol yr Eglwys yng Nghymru hefyd **cyn** llofnodi unrhyw fath o gontract safonol heblaw Llythyr Penodi syml.

Pa bynnag fath o gontract safonol a ddefnyddiwch (RIBA, RICS neu JCT) dylai gynnwys manylion y camau talu, rhwymedigaethau, yswiriant indemniad proffesiynol, is-gontractwyr (os cânt eu defnyddio) a gweithdrefnau datrys anghydfod.

Dyna yw'r rhan fwyaf o gontractau safonol ac maent yn cynnwys set safonol o gymalau y gall fod angen eu haddasu neu eu dileu i fod yn addas i'ch prosiect chi. Cânt eu defnyddio gan eu bod yn cael eu cydnabod ar draws y diwydiant adeiladu a'u bod wedi'u geirio'n ofalus i atal unrhyw gamddealltwriaeth rhwng y cleient a'i gyngorydd proffesiynol/contractwr adeiladu. Maent hefyd yn rhwymol gyfreithiol mewn llys barn.

Nodyn: Nid yw Cyngor Plwyf Eglwysig yn gorff corfforaethol dan y gyfraith. Felly, os ydych yn llofnodi contract safonol (fel a roddir gan RIBA, RICS neu JCT) gyda chynghorydd proffesiynol neu gontractwr adeiladu nid y Cyngor Plwyf Eglwysig fydd yn ei lofnodi, ond unigolion a enwyd (y periglor a'r wardeniaid fel arfer). Mae hyn yn golygu y bydd angen cofnod neu benderfyniad arnoch i nodi bod yr unigolion a enwyd yn gweithredu ar ran y Cyngor Plwyf Eglwysig a bod ganddynt ei gefnogaeth. Efallai y byddwch angen i Gorff y Cynrychiolwyr gydlofnodi'r contract neu roi eu cydsyniad hefyd fel perchennog yr adeilad.

ATODIAD B - CAFFAEL

Dylai'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei gaffael drwy dendro neu ddyfynbrisiau cystadleuol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn derbyn grant. Gall y canlynol fod o gymorth fel canllaw ar gyfer pryd i ofyn am ddyfynbris neu i dendro am waith a'r math o gytundeb neu gontract a fyddai'n addas.

1. Cyfanswm Cost Prosiect hyd at £5,000

Sicrhewch o leiaf 3 dyfynbris gan berson â chymwysterau neu brofiad addas. Efallai na fydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer gwaith o dan (dyweder) £1,000 os ydych wedi defnyddio'r cyflenwr/contractwr o'r blaen ac yn hapus gyda'u gwaith. Dylid cael llythyr syml yn rhestru costau'r prosiect a chytuno arno cyn i'r gwaith ddechrau.

2. Cyfanswm Cost Prosiect rhwng £5,000 a £50,000

Dylech gael 3 dyfynbris gan gwmnïau dibynadwy yn seiliedig ar restr o'r gwaith neu fanyleb. Dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig a'r person neu'r cwmni sy'n cyflawni'r gwaith lofnodi Llythyr Cytundeb ffurfiol yn rhoi manylion cyfanswm cost y prosiect, rhestr o'r gwaith a'r amserlen.

Efallai y bydd angen i brosiect cost is cymhleth gael contract ffurfiol hefyd – gofynnwch i'ch cynghorydd proffesiynol am y math gorau o gontract i'w ddefnyddio.

3. Cyfanswm Cost Prosiect dros £50,000

Bydd angen o leiaf 3 tendr ffurfiol gan gwmnïau dibynadwy yn seiliedig ar fanyleb fanwl a fyddai'n cael ei llunio gan bensaer neu syrfëwr adeiladu fel arfer. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud o dan gontract safonol rhwng y Cyngor Plwyf Eglwysig a'r contractwr a/neu'r pensaer/syrfëwr adeiladu fel arfer. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Atodiad A, efallai y byddai Llythyr Penodi'n fwy priodol ar gyfer prosiect cost uwch sy'n defnyddio un contractwr.

Nodyn: Os ydych yn amau addasrwydd contract penodol gofynnwch am gyngor gan y Gwasanaethau Eiddo neu Adran Gyfreithiol yr Eglwys yng Nghymru.

Tina Andrew
Rheolwr Cadwraeth a Chymorth Eglwysi
Yr Eglwys yng Nghymru
Diweddarwyd 29 Awst 2019